# Grŵp Llywio Adolygiad Timms

## Crynodeb

### Sefydliad

Grŵp Llywio Adolygiad Timms

### Adran sy’n noddi

Adran Gwaith a Phensiynau

### Lleoliad

Hybrid

### Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau

23:59pm ar 30 Tachwedd 2025

### Sectorau

Anabledd ac iechyd, nawdd cymdeithasol

### Nifer y swyddi gwag

12

### Ymrwymiad amser

Hyd at 5 diwrnod y mis (rhagwelir)

### Tâl

£300 y dydd a threuliau (gan gynnwys costau sy’n berthnasol i hygyrchedd, teithio a chynhaliaeth)

### Hyd y tymor

Bydd y grŵp yn rhedeg tan ddiwedd 2026

## Trosolwg

Mae Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) yn cefnogi llawer o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn fudd-dal arian parod heb brawf modd sydd ar gael i bobl sydd mewn gwaith a phobl sydd allan o waith. Mae'r Llywodraeth wedi lansio Adolygiad Timms o PIP, adolygiad uchelgeisiol a chynhwysol sy'n anelu at sicrhau bod gennym system sy'n cefnogi pobl anabl i gyflawni gwell iechyd, safonau byw uwch a mwy o annibyniaeth, gan gynnwys trwy gyflogaeth. Mae Cylch Gorchwyl yr adolygiad ar gael yma https://www.gov.uk/government/publications/timms-review-of-pip-terms-of-reference.

Bydd yr Adolygiad yn cael ei arwain gan y Gweinidog dros Nawdd Cymdeithasol ac Anabledd, Syr Stephen Timms, gyda chefnogaeth gan ddau gyd-gadeirydd, a bydd yn cael ei gyd-gynhyrchu â phobl anabl, y sefydliadau sy'n eu cynrychioli, ac arbenigwyr eraill. Mae hyn yn golygu y bydd y Llywodraeth yn rhannu perchnogaeth a chyfrifoldeb dros sut mae'r Adolygiad yn cael ei redeg a'r hyn y mae'n ei argymell. Rydym yn sefydlu grŵp llywio a fydd yn darparu cyfeiriad strategol, gwneud penderfyniadau ar y cyd, ac arweinyddiaeth gyffredinol ar gyfer yr Adolygiad.

Mae'r Llywodraeth eisiau recriwtio 12 o bobl ar gyfer y grŵp llywio. Bydd y grŵp yn dwyn ynghyd ystod o arbenigedd, profiad, sgiliau a chefndiroedd. Ein nod yw i fwyafrif y grŵp fod yn bobl anabl ac mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan bobl sy'n ymwneud â Sefydliadau Pobl Anabl, gan gydnabod eu rôl unigryw wrth ymhelaethu ar leisiau pobl anabl.

Bydd y grŵp llywio yn llunio ac yn goruchwylio rhaglen o gyfranogiad ac ymgysylltu sy'n dwyn ynghyd ystod llawer ehangach o safbwyntiau a lleisiau i'w bwydo i'r Adolygiad.

Ochr yn ochr â hyn, bydd yn tynnu ar ystod eang o dystiolaeth, ffynonellau a methodolegau cyd-gynhyrchu i helpu i ddatblygu argymhellion polisi, y bydd yn eu hadrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau erbyn hydref 2026.

## Rôl

Bydd rolau aelodau'r grŵp llywio yn swyddi parhaol am gyfnod yr Adolygiad a fydd yn rhedeg tan hydref 2026. Disgwylir i aelodau'r grŵp llywio ymrwymo hyd at 5 diwrnod y mis. Gall yr ymrwymiad amser gwirioneddol amrywio ar draws cyfnod yr Adolygiad. Bydd hyn yn cael ei bennu gan y grŵp a fydd yn cytuno ar sut maen nhw am weithio, yn ogystal ag a yw cyfarfodydd yn rhithwir, wyneb yn wyneb neu'n hybrid. Gwneir addasiadau rhesymol lle bo angen.

Cyfrifoldebau'r grŵp llywio:

• Cytuno ar y cyd sut y bydd y grŵp yn gweithio, gan hyrwyddo cynhwysiant, hygyrchedd a chydweithio

• Mynychu cyfarfodydd rheolaidd y grŵp llywio a sesiynau cyd-gynhyrchu ac ymgysylltu ehangach perthnasol eraill yn ôl yr angen

• Mynychu unrhyw gyfarfodydd cyn-gynhyrchu ac adolygu dogfennaeth berthnasol cyn cyfarfodydd

• Llunio sut mae'r Adolygiad yn casglu tystiolaeth ac yn cynnwys arbenigedd a phrofiad byw y tu hwnt i'r grŵp llywio craidd

• Gwerthuso tystiolaeth, gan gynnwys data a mewnwelediadau gan yr Adran, pobl anabl ac arbenigwyr eraill

• Gwneud penderfyniadau ar y cyd ynghylch cyfeiriad a ffocws yr Adolygiad

• Cyd-gynhyrchu argymhellion i sicrhau bod PIP yn deg ac yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn helpu i gefnogi pobl anabl i gyflawni gwell iechyd, safonau byw uwch a mwy o annibyniaeth, gan gynnwys trwy gyflogaeth

• Cyfrannu at gynhyrchu dogfennaeth berthnasol sy'n ymwneud â'r Adolygiad

• Ymgysylltu â rhwydweithiau presennol i gefnogi cyflawni a lledaenu gwaith yr Adolygiad

• Cynnig adborth a chymryd rhan mewn gwerthuso prosiectau a dysgu

Bydd gan gyd-gadeiryddion yr un cyfrifoldebau ag aelodau eraill y grŵp. Bydd gan gyd-gadeiryddion gyfrifoldebau hwyluso ychwanegol, gan gynnwys cydlynu cyfarfodydd, cysylltu rhwng y grŵp llywio, hwyluswyr cyd-gynhyrchu a'r ysgrifenyddiaeth a chefnogi cyfranogiad aelodau eraill y grŵp.

## Taliad a threuliau

Bydd aelodau'r grŵp llywio yn cael ffi ddyddiol o £300.

Bydd yr aelodau'n gyfrifol am gyflwyno anfoneb i'r Adran bob mis yn manylu ar y gwaith a wnaed, gan gynnwys unrhyw dreuliau a gafwyd lle bo'n berthnasol. Bydd y taliad hwn yn destun cyfraddau treth incwm PAYE ochr yn ochr ag unrhyw incwm arall a gewch. Bydd yr aelodau'n gyfrifol am ddatgelu'r taliad hwn i Gyllid a Thollau EF (CThEF) a'r swyddfa budd-daliadau berthnasol os ydynt yn hawlio budd-dal. Gall ymgeiswyr ddewis peidio â derbyn taliad a chynghorir hwy i ymgynghori â'u cynghorydd budd-daliadau neu ariannol.

Bydd yr Adran yn ad-dalu'r holl dreuliau a gafwyd yn rhesymol (gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â hygyrchedd, teithio, a chynhaliaeth) yn unol â pholisi addasiadau rhesymol yr Adran a'i pholisi teithio a chynhaliaeth.

## Ymddygiad a chyfrinachedd

Rhaid i aelodau'r grŵp llywio beidio â chamddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn ystod eu penodiad er budd personol neu at ddibenion gwleidyddol. Mae rhwymedigaeth gyffredinol i gynnal cyfrinachedd gwybodaeth a rennir yn gyfrinachol. Mae hyn yn safonol ar gyfer pob penodiad cyhoeddus.

Nod Adolygiad Timms yw bod yn dryloyw ac yn agored ynghylch gwneud penderfyniadau. Cytunir ar y strategaeth gyfathrebu ar gyfer yr Adolygiad, gan gynnwys pa wybodaeth a rennir yn gyhoeddus yn ystod yr Adolygiad, gyda'r aelodau.

## Cynhwysiant a hygyrchedd

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ymrwymo i ffyrdd cynhwysol a hygyrch o weithio. Byddwn yn cydweithio â grŵp llywio Adolygiad Timms a hwyluswyr cyd-

gynhyrchu i ddiwallu anghenion unigolion, gan gynnwys anghenion hygyrchedd, hyfforddiant a chefnogaeth lles fel y gallant gymryd rhan yn ystyrlon.

Lle bo angen, bydd aelodau'n gallu dod â chynorthwyydd personol, gofalwr neu weithiwr cymorth i gyfarfodydd.

Bydd aelodau'n cyd-gynhyrchu ffyrdd o weithio, gan gynnwys a yw cyfarfodydd yn rhithwir, yn bersonol neu'n hybrid, a gwneir addasiadau rhesymol lle bo angen.

Bydd yr Adran yn ad-dalu'r holl gostau rhesymol sy'n gysylltiedig â hygyrchedd yn unol â pholisi addasiadau rhesymol yr Adran.

## Diogelu data

Mae angen eich caniatâd arnom i ddefnyddio eich data fel y gellir eich ystyried i'w ddewis fel aelod o grŵp llywio Adolygiad Timms.

Mae 'eich data' yn cyfeirio at eich enw, cyfeiriad e-bost a'r wybodaeth a rennir gennych yn eich cais. Byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth am nodweddion a chefndir ymgeiswyr i helpu i sicrhau ein bod yn denu ystod amrywiol o bobl a bod ein proses ddethol yn deg ac yn gynhwysol.

Mae angen eich caniatâd arnom hefyd i ddefnyddio eich data i gysylltu â chi am gyfleoedd eraill i ymgysylltu ag Adolygiad Timms.

Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn defnyddio e-bost fel y brif ffordd o gyfathrebu â chi. Rhowch wybod i ni os bydd yn well gennych gael dull arall o gyfathrebu, fel galwad ffôn.

# Y broses gwneud cais a dethol

## Meini prawf dethol

### Hanfodol (ar gyfer holl aelodau'r grŵp llywio):

Rydym yn chwilio am unigolion a all ddangos y meini prawf hanfodol canlynol (gydag addasiadau rhesymol neu gefnogaeth wedi'i theilwra lle bo angen).

• Gwybodaeth, profiad neu arbenigedd mewn anabledd, cyflyrau iechyd hirdymor a/neu faterion sy'n gysylltiedig â nawdd cymdeithasol

• Profiad o ymwneud ag ymgysylltiad strategol ar faterion sy'n ymwneud ag anabledd, cyflyrau iechyd hirdymor neu faterion sy'n gysylltiedig â nawdd cymdeithasol

• Profiad o ymgysylltu, cefnogi neu weithio gyda phobl anabl a/neu bobl â chyflyrau iechyd hirdymor, a/neu ddeall y problemau a'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu

• Ymrwymiad i weithio ar y cyd ac yn gynhwysol gyda phobl o gefndiroedd a safbwyntiau amrywiol

• Gallu i werthuso tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys data ansoddol a meintiol

• Gallu i ymgysylltu â materion polisi cymhleth, gan gynnwys cyfaddawdau anodd a phenderfyniadau ariannol

I bobl ag anawsterau dysgu, anableddau dysgu ac anghenion cymhleth, bydd cymorth ychwanegol i'ch galluogi i gymryd rhan yn y grŵp llywio.

**Dymunol (o fewn y grŵp cyfan):**

Rydym yn edrych i gynnwys ystod o brofiad, arbenigedd ac amrywiaeth o gynrychiolaeth ymhlith y grŵp llywio. Rhestrir isod enghreifftiau o'r mathau o brofiad ac arbenigedd yr ydym yn edrych i'w cynnwys. Ni fydd unrhyw aelod unigol yn bodloni'r holl feini prawf hyn, ond dylai fod ystod amrywiol o arbenigedd a phrofiad ar draws y grŵp.

Ein huchelgais yw y bydd mwyafrif y grŵp yn bobl anabl neu gynrychiolwyr o Sefydliadau Pobl Anabl.

• Profiad bywyd o anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor

• Profiad o ofalu neu fod yn eiriolwr dros berson anabl neu rywun â chyflwr iechyd hirdymor

• Profiad o hawlio PIP (neu gefnogi rhywun sy'n hawlio PIP) yng Nghymru a Lloegr

• Profiad o weithio neu wirfoddoli i Sefydliad Pobl Anabl neu elusen sy’n cefnogi pobl anabl

• Profiad o ddarparu gwasanaethau sy'n cefnogi pobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd hirdymor i gael mwy o annibyniaeth, gan gynnwys trwy waith

• Arbenigedd (proffesiynol, academaidd neu drwy brofiad) mewn hawliau a chynhwysiant anabledd, ymchwil, gofal iechyd a chymdeithasol, budd-daliadau nawdd cymdeithasol ac anabledd, cyflogaeth, tribiwnlysoedd, deddfwriaeth, llunio polisïau, economeg a pholisi cyhoeddus

• Arbenigedd cyfreithiol, clinigol ac ariannol

• Arbenigedd neu brofiad o ddulliau cyd-gynhyrchu a chyfranogol

• Profiad o wneud penderfyniadau gweithredol a/neu adeiladu consensws

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi lleisiau amrywiol. Rydym yn annog ceisiadau'n gryf gan bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor o bob cefndir, gydag ystod o brofiadau. Rydym yn awyddus i'r grŵp gael cynrychiolaeth amrywiol ar draws mathau o nam, rhanbarthau daearyddol, hil ac ethnigrwydd, rhywedd, cyfeiriadaedd rywiol, oedran a statws cyflogaeth. Rydym wedi ymrwymo i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw ymgeiswyr dan anfantais yn ystod y broses gwneud cais.

## Sut i wneud cais

I wneud cais bydd angen i chi:

1. Llenwi’r ffurflen Mynegi Diddordeb sy'n gofyn i ymgeiswyr ddarparu:

a. Eich manylion personol

b. Datganiad 500 gair yn nodi sut rydych yn bodloni'r meini prawf hanfodol a pham yr hoffech fod yn aelod o grŵp llywio Adolygiad Timms. Efallai yr hoffech gynnwys:

- o pa brofiad neu arbenigedd y gallech ei gyfrannu at y grŵp
- o pam yr hoffech fod yn rhan o ddyfodol PIP
- o sut y byddech yn cyfrannu at gyd-gynhyrchu'r Adolygiad

c. Ffurflen monitro amrywiaeth. Sylwch na fydd ateb 'dewis peidio â dweud' yn anfantais i'ch cais.

2. Darparu CV yn nodi eich hanes cyflogaeth a/neu addysg, gan gynnwys unrhyw brofiad gwirfoddoli, gyda chyfrifoldebau a chyflawniadau allweddol wedi'u rhestru.

Dylid dychwelyd ceisiadau cyflawn a CVs drwy e-bost i eoi.pipreview@dwp.gov.uk erbyn 23:59pm ar 30 Tachwedd 2025.

Rydym wedi ymrwymo i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw ymgeiswyr dan anfantais yn ystod y broses ymgeisio. Mae hyn yn cynnwys caniatáu i ymgeiswyr gyflwyno eu Ffurflen Mynegi Diddordeb mewn gwahanol fformatau. Dylid anfon unrhyw geisiadau am addasiad rhesymol i gefnogi eich cais neu geisiadau am y ffurflen Mynegi Diddordeb mewn fformatau hygyrch eraill i eoi.pipreview@dwp.gov.uk.

Os ystyrir eich cais ar gyfer y detholiad terfynol, bydd yr Adran neu gyd-gadeiryddion yn cysylltu â chi i drafod eich profiad a pham rydych am gymryd rhan yn fanylach. Sgwrs anffurfiol fydd hon, nid cyfweliad.

Byddwn yn cysylltu ag ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus am ganlyniad eu cais ond nid ydym yn gallu rhoi adborth unigol.

# Gwybodaeth ychwanegol i ymgeiswyr

## Addasiadau rhesymol

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ymrwymo i wneud addasiadau rhesymol i gefnogi ceisiadau gan bobl anabl, gan gynnwys y rhai sydd â nam corfforol, pobl â phroblemau iechyd meddwl, a’r rhai sy’n niwrowahanol gan gynnwys pobl awtistig, fel nad yw neb dan anfantais sylweddol wrth gyflwyno ceisiadau.

Gall hyn gynnwys galluogi ymgeiswyr i newid agweddau ar y broses recriwtio os ydynt yn gofyn am wneud hynny.

Dyma rai enghreifftiau o newidiadau cyffredin:

• sicrhau bod ffurflenni cais ar gael mewn gwahanol fformatau neu fformatau hygyrch

• caniatáu i ymgeiswyr gyflwyno eu Mynegiant o Ddiddordeb mewn gwahanol fformatau, er enghraifft fideo neu sain neu an-ddigidol

• caniatáu i gynorthwywyr personol, gofalwyr neu weithwyr cymorth, er enghraifft dehonglwyr iaith arwyddion

• gwneud darpariaeth i anifeiliaid cymorth fynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb

Pan fyddwch yn gwneud cais, bydd cyfle gennych i ofyn am addasiadau rhesymol i'r broses ymgeisio drwy anfon e-bost at eoi.pipreview@dwp.gov.uk

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydym yn casglu data am nodweddion a chefndiroedd ymgeiswyr fel y gallwn sicrhau ein bod yn denu ystod eang o bobl i'r rolau hyn a bod ein prosesau dethol yn deg i bawb. Gallwch ddewis 'dewis peidio â dweud' i unrhyw gwestiwn nad ydych am ei ateb. Ni fydd hyn yn rhoi eich cais dan anfantais.